

Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon: Cwestiynau Cyffredin

C. Pwy sy'n gyfrifol am Achredu Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon?

O dan Orchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon) (Swyddogaethau Ychwanegol) 2017, mae gan CGA gyfrifoldeb statudoli wneud y canlynol:

- achredu rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA)
- monitro cydymffurfiaeth â rhaglenni achrededig yn erbyn meini prawf Llywodraeth Cymru
- dileu achrediad rhaglenni

Bydd cyfrifoldebau blaenorol CCAUC ar gyfer achrediad HCA sefydliadol o dan Ddeddf Addysg 2005 yn parhau ar gyfer y ddarpariaeth bresennol (hyd at acyn cynnwys darpariaeth sy'n dechrau yn 2018) ond bydd yn dod i ben o flwyddyn academaidd 2019/20 ymlaen.

C. Beth sy'n digwydd os wyf i fod i ddechrau cwrs HCA eleni?

Mae achrediad CCAUC yn berthnasol hyd at ac yn cynnwys myfyrwyr sy'n dechrau ar gyrsoedd yn 2018/19. Bydd ansawdd y cyrsiau hynny'n parhau i gael ei fonitro gan arolygwyr Estyn a byddwch yn gallu cwblhau eich cwrs yn y ffordd arferol ac ennill statws athro cymwys.

C. Beth sy'n digwydd os wyf i fod i ddechrau cwrs HCA yn 2019/20

Mae'r trefniadau ar gyfer achredu wedi newid a bydd rhaid i chi sicrhau bod y rhaglen rydych chi'n gwneud cais iddi wedi cael ei achredu o dan brosesau Cyngor y Gweithlu Addysg. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar eu [gwefan](#).

C. Sut mae cael gwybodaeth am ansawdd fy nghwrs HCA?

Yn ddiweddar mae Estyn wedi arolygu pob darpariaeth HCA yng Nghymru o dan y trefniadau achredu blaenorol. Gellir gweld yr adroddiadau ar yr arolygiadau hynny ar wefan Estyn yma.

C. Beth sy'n digwydd os ydw i i fod i ddechrau cwrs AGA yn 2018/19, ond na fydd fy sefydliad yn ei gynnis o 2019/20 ymlaen?

Byddwch yn dal i allu cwblhau eich cwrs ac ennill statws athro cymwys, hyd yn oed os nad yw eich sefydliad wedi cael ei achredu o 2019/20 ymlaen. Bydd Estyn a CCAUC yn cydweithio i sicrhau bod y cwrs o ansawdd uchel a bod profiad priodol i'r myfyrwyr.